

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, 7fed o Chwefror, 2019 yn Ffestri Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, (Cadeirydd); Anwen Jones, (Is gadeirydd); Aled Lloyd Evans; William Ifor Hughes; Trefor Wyn Jones, Gareth O Davies, Sian Angharad Parry, Ceri Jones; Sion Aled Jones, Darren Morley a'r Clerc.

Croesawu'r Cyngorydd Darren Morley, 44 Cae'r Ffynnon, Llanystumdwy fel Cyngorydd newydd dros Ward Llanystumdwy ar y Cyngor Cymuned.

1.Ymddiheuriadau.

Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth y Cynghorwyr Naomi Jones; Thomas Prys Jones, Angela Williams, Aled Davies; a Tegid Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Ionawr 2019, yn Ffestri Pencaenewydd.

3. Dim taliadau BACS wedi cael ei gwneud fis Ionawr, felly dim angen llofnodi cadarnhâd o unrhyw daliad.

4. Materion yn codi o'r cofnodion.

Ar y rhaglen.

5. Datgan buddiant personol.

Cyngorydd Margaret Griffith, datgan buddiant personol yn rhif 7, o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Eisteddfod Gadeiriol Chwilog, oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor yr Eisteddfod.

Cyngorydd Aled Evans, cais cynllunio codi cytiau cwn, Cefn Coed, Chwilog, - datgan buddiant personol yn rhif 10a oherwydd ei fod yn gymydog i'r ymgeisydd, a bod mynedfa ei dŷ yn uniongyrchol dros y ffordd i fynedfa Cefn Coed. Hefyd yn datgan buddiant personol o dan rhif 4 o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Rydd Chwilog oherwydd ei fod yn aelod ar y pwyllgor hwnnw. Datgan buddiant personol yn rhif 8, sef Menter y Plu, oherwydd ei fod yn gysylltiol â'r fenter.

Cyngorydd Trefor Wyn Jones, datgan buddiant personol yn rhif 7 o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Eisteddfod Chwilog, oherwydd ei fod ar y Pwyllgor. Hefyd, rhif 9, sef Clwb Peldroed Llanystumdwy oherwydd fod aelod o'r teulu yn chwarae yno.

Cyngorydd Anwen Jones, datgan buddiant personol rhif 5, o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei bod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Hefyd rhif 8, Menter y Plu, oherwydd ei bod yn berthynas i aelod o'r pwyllgor hwnnw.

Cyngorydd Gareth Davies, datgan buddiant personol rhif 5, o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw.

Cynghorydd William Hughes, datgan buddiant personol rhif 2, o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Cymdeithas Adloniant Pencaenewydd, oherwydd ei fod yn aelod ar y pwyllgor hwnnw.

Cynghorydd Sion Aled Jones, datgan buddiant personol rhif 1, o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Menter y Plu, oherwydd ei fod yn ysgrifennydd y fenter. Rhif 5, Mynwent Newydd Llanystumdwy oherwydd ei fod yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Rhif 19, sef Cylch Meithrin Chwilog oherwydd fod ei ferch yn mynychu'r Cylch. Rhif 15, sef Neuadd Llanystumdwy oherwydd ei fod yn aelod o'r pwyllgor.

Cynghorydd Sian Parry, datgan buddiant personol rhif 5, Mynwent Newydd Llanystumdwy, oherwydd ei bod yn aelod o bwyllgor y fynwent.

Cynghorydd Darren Morley, datgan buddiant personol rhif 9, o'r ceisiadau am gymorth ariannol, sef Clwb Peldroed Llanystumdwy, oherwydd ei fod yn frawd i gadeirydd y clwb peldroed.

6. Cyngor Gwynedd.

- i) Adran Amgylchedd, Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad;
Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig ger tai Glanywern, Chwilog. Y Clerc wedi derbyn gohebiaeth ganddynt, yn dweud fod y cynnig wedi cael ei anfon at y Gwasanaeth Cyfreithiol. Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i gael diweddariad, a bod rhybudd cyhoeddus yn cael ei roi yn y papur newydd ar 07.02.19, a'r dyddiad cau fydd 08.03.19. **Derbyn er gwybodaeth.**
- ii) **Biniau halen** o fewn y gymuned – mae 5 ohonynt. Mae un ger Gwyddfôr, Chwilog, Pentyrch Uchaf, Llanygybi, rhwng y bont a Chapel y Beirdd, Bryn Beddau, Rhoslan a Tan yr Erw, Lon Gefn Llanystumdwy. Mae angen cadw golwg manwl arnynt yn ystod yr wythnosau nesaf rhag ofn y bydd hi'n rhewi. **Angen cysylltu hefo'r Clerc os bydd angen ei llenwi.**
- iii) Archwilio mewnol – wedi trafod yng nghyfarfod fis Ionawr 2019 y byddem yn gofyn wrth Adran Archwilio Cyngor Gwynedd wneud yr archwiliad am y flwyddyn sy'n dod. **Rheolwr Archwilio Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ymgymryd â'r gwaith.**
- iv) Cyngor Gwynedd – gwaharddiad trafniadaeth trwodd dros dro, sef cau'r ffordd dosbarth III gyferbyn â Pinetrees, Pencaenewydd, o'r 16.01.19 am hyd at 3 diwrnod, er mwyn galluogi gwaith atgyweirio brys ar 'stop tap' diffygiol. **Derbyn er gwybodaeth.**
- v) **Adolygiad cludiant cyhoeddus** - Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig a Diogelwch Ffyrdd, - mae rhwydwaith cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd wedi gweld cyfnod anodd iawn dros y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i gwmnïau yn gorfod cau neu golli trwyddedau. Mae Cyngor Gwynedd yn gwario oddeutu 1.5 miliwn ar gynnal y rhwydwaith bob blwyddyn ac yn cyfrannu 476 mil i'r Llywodraeth am Gerdyn Teithio am ddim (dros 60 ac anabl). Mae wedi dod yn glir y bydd y sefyllfa ariannol fydd yn gwynebu Cyngor Gwynedd dros y blynyddoedd nesaf yn fwy heriol nag erioed. Mae'n anorfod bellach bod adolygiad cynhwysfawr ar y rhwydwaith yn cael ei

gynnal i ddeall beth yw anghenion trigolion Gwynedd am gludiant cyhoeddus, ac yna ceisio llunio rhwydwaith i gyfarch yr angen hwnnw mewn modd effeithlon a chost effeithiol. Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn cydweithio gyda Prifysgol Bangor i ddylunio holiadur a chael trigolion Gwynedd boed nhw yn defnyddio'r gwasanaethau neu ddim i gwblhau'r holiadur. Ei nod fydd cyfrifo pa lwybrau bysiau sydd yn darparu'r gwerth cymdeithasol mwyaf i'n trigolion. Bydd Cyngor Gwynedd yn casglu gwybodaeth rhwng 02.01.19 -30.04.19.

Angen i'r Clerc ofyn am gopiau papur er mwyn ei rhannu yn y gymuned, rhag ofn nad yw'n bosib i bawb ei cwblhau ar y wefan.

7. Sedd Wag - Ward Llanystumdwy, Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Cyfethol Mr Darren Morley, i gynrychioli Ward Llanystumdwy. Cwblhau a llofnodi Datganiad Derbyn Swydd ar y noson.

8. **Swyddfa Archwilio Cymru** -wedi anfon adroddiadau gan yr Archwilydd Cyffredinol - yn ymwneud â chynghorau cymuned a thref.

[Rheoli Ariannol a Llywodraethu - Cynghorau Cymuned a Thref 2017-18](#) yn amlinellu casgliadau cyffredinol yr Archwilydd Cyffredinol o'i waith archwilio.

[Trefniadau Archwilio Mewnol Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru](#) yn adrodd ar astudiaeth yr Archwilydd Cyffredinol o swyddogaethau archwilio mewnol yn y sector. Mae'r ddau adroddiad yn nodi bod angen i gynghorau cymuned a thref wneud gwelliannau i'w trefniadau. Maent yn dweud y gall pob cyngor ddysgu gwersi o'r materion a nodwyd ac felly wedi anfon copïau i bob cyngor yng Nghymru, er mwyn dosbarthu copïau o'r adroddiadau i aelodau y Cyngor i'w trafod mewn cyfarfod priodol. **Penderfynwyd y dylai aelodau'r Pwyllgor Busnes/Ariannol edrych ar y ddau adroddiad erbyn ein cyfarfod nesaf.**

9. Cynllun Ffioedd Archwilio ar gyfer 2019-20- bellach wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Cynllun Ffioedd yn darparu'r sail ar gyfer y ffioedd y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu codi. **Derbyn er gwybodaeth.**

10. **Cyngor Gwynedd - ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

- a. Cais Rhif C18/1050/41/LL -Codi Cytiau Cwn, Cefn Coed, Chwilog. Diwygiadau i'r cais blaenorol. **Dim gwrthwynebiad.**
- b. Cais Rhif C19/0040/41/YA - Adeiladu sied amaethyddol, Cefn Gwyn, Chwilog. **Cefnogi.**
- c. Cais Rhif C18/1169/41/YA - Adeiladu sied amaethyddol, Lon Las, Llangybi. **Cefnogi.**
- d. Cais Rhif C18/1083/41/LL - Dymchwel ystafell haul bresennol a chodi ystafell haul newydd, Bryn Tirion, Chwilog. **Cefnogi.**
- e. Cais Rhif C18/1201/41/LL - Bryn Gorlan, Pencaenewydd - cais i ddymchwel ystafell haul bresennol ynghyd a'i godi a chodi estyniad unllawr tó fflat gyda balconi uwchben. **Cefnogi.**

f. Cais Rhif C17/1259/41/LL – Y Glyn, Llanystumdwy – ail gyflwyniad o gais C17/1259/41/LL ar gyfer trosi adeiladau allanol i ddau uned gwyliau.

Cefnogi.

g. Cais Rhif C19/0079/41/LL – Cyrion, Llanystumdwy – cais i godi estyniadau i'r eiddo. **Cefnogi.**

11. Lwfansau Cynghorydd am Ebrill 2018 ymlaen; un Cynghorydd heb lofnodi.

12. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Mainc ar y llwybr o Lanystumdwy i Gricieth ger Lodge Ynysgain. Y Clerc wedi cysylltu hefo Mr Dave Smith o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac wedi trefnu i Gyngorydd o Lanystumdwy gael cyfarfod safle i drafod lleoliad mainc newydd. Trafodwyd lleoliad ger hen giat ar y llwybr, ac un arall ger y coed yn ymyl Cae Llo Brith. Oherwydd fod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth gael caniatad tenant y tir er mwyn ei gosod yn safle'r hen adwy, a bod golygfa o'r môr o'r lleoliad ger y coed, penderfynwyd ffafrio'r safle ger y coed. Angen holi'r Ymddiriedolaeth i weld o ble maent yn prynu meinciau sy'n gweddu i'r safle.

Safle bws Cae Llo Brith - Y Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn oes yw'n bosib cael 'tarmac' ar tua 20 llath o'r safle bws i fynediad Talafor, yn lle'r gwellt glas sydd yno rwan. Disgwyl ymateb.

Rhoslan /Ynys

Chwilog

- Mainc newydd yng nghanol Chwilog. Parhau i aros penderfyniad ynglyn â mainc Llanystumdwy er mwyn delio hefo'r ddwy ar yr un adeg. Y Clerc wedi derbyn ffurflen gais S115.
- Safle bws ym Mhenygroes Llanystumdwy ar draws y lon i'r garej. Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i ofyn am roi arwydd 'safle bws' a llinellau melyn. Disgwyl ymateb.
- Bin baw cwn – cais i gael bin yng ngheg Lon y Fynwent. Bagiau baw cwn yn cael ei rhoi ym miniau'r fynwent sy'n peri gofid a nid oes bin baw cwn arall yn ymyl. Angen i'r Clerc wneud ymholiadau

Pencaenewydd/Sardis

Mynwentydd Eglwysi'r ardal - cais gan Cyngorydd o Bencaenewydd i drafod y sefyllfa. Derbyniwyd gwybodaeth y byddai'n cymryd tua blwyddyn i'r adroddiad gael ei wneud gan yr Eglwys. Penderfynu felly i adael y mater am y tro.

Llangybi

- Llangybi (i) Rhybudd cau ffordd – Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd
- (ii) Sbwriel ail-gylchu – Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd

- Llwybrau Pont Merchaid a Garn Pentyrch – Clerc wedi derbyn e-bost cynhwysfawr gan Mr Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, Cyngor Gwynedd, yn egluro cyflwr y llwybrau. Darllenwyd cynnwys yr e-bost yn y cyfarfod, a penderfynwyd ei drafod ymhellach yn ein cyfarfod fis Mawrth.

13. **Ail-strwythuro Canolfannau Iaith Gwynedd** – y Clerc wedi derbyn ateb byr gan Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd mewn ymateb i llythyr y Clerc. Angen i’r Clerc anfon copi o’r llythyr a’r ateb at Cynghorydd Gareth Thomas, Cadeirydd Portffolio Addysg, Cyngor Gwynedd yn datgan siomedigaeth yn yr ymateb.

Materion Ariannol

14. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a’r Swyddog Ariannol Cyfrifol.

15. Mae’r Clerc wedi derbyn e-bost gan yr Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Dwyfor yn cadarnhau ein bod wedi derbyn ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned o £417.80, roedd y cyfanswm gwariant am eleni yn £974.00. Mae hefyd eisiau cadarnhâd gennym os ydym am barhau i fod yn rhan o’r trefniant ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd, sef 2019/2020. Clerc i anfon llythyr yn cadarnhau ein bod am barhau i fod yn rhan o’r trefniant.

Cwmni Lightsource, fferm solar Tyddyn Gwyn, Gelli Gron – wedi derbyn taliad o £3857.70 ganddynt (08.01.19) sydd wedi cael ei dalu i’r cyfrif Budd Cymunedol.

16. Gohebiaeth gan Bennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn cadarnhau derbyn ffurflen praesept o £15,000.00 am y flwyddyn 2019/2020, ar gyfer Cyngor Cymuned Llanystumdwy.

17. Anfonebau angen eu talu:

Enw	Rheswm	Pris £	TAW £	Cyfanswm £	Taliad BACS
Swyddfa Archwilio Cymru	Archwilio allannol	393.75		Wedi gwneud taliad sic am £150.00 fis diwethaf, balans o 243.75 ar ol	<i>Trafod ar y noson-gweler isod</i>
Y Ffynnon	Hysbyseb rhifyn Tachwedd a Rhagfyr 2018	28.00		28.00	BACS

Y Clerc wedi derbyn ateb gan Swyddfa Archwilio Cymru, mewn ymateb i’w llythyr yn holi am y cynnydd yn y bil eleni, o £393.75, yn lle £203.40 llynedd. Dyma’r ateb:-

“Diolch yn fawr am eich e-bost ac ymddiheuriadau am yr oedi yn ymateb.

Mae gofyn i ni godi ffioedd am yr amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r archwiliad. Bob blwyddyn rydyn ni'n gwneud gwaith gwahanol ac felly bydd yr amser sy'n cael ei dreulio ar y gwaith yn wahanol.

Yn 2017/18 rydyn ni wedi gweld cynnydd yn yr amser gafodd ei dreulio yn gwneud y gwaith angenrheidiol ac o ganlyniad roedd angen mwy o amser ar y broses adolygu. Roedd mwy o waith papur a gymerodd fwy o amser i'w adolygu ac i gwblhau'r gwaith angenrheidiol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2016/17 fe gymerodd y gwaith archwilio 2.3 awr o'i gymharu â 4 awr yn 2017/18. Roedd y broses adolygu hefyd wedi cymryd mwy o amser gan fod gwybodaeth fanylach i'w hadolygu gyda 0.40 yn 2016/17 o'i gymharu â 0.95 yn 2017/18.

Rydw i wedi diweddarau ein cofnodion ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn 2018/19.

*Cofion Gorau
Louise Caplen"*

Y bwriad ar noson y pwyllgor oedd i benderfynu os oedd angen gwneud rhywbeth eto, neu dalu gweddill y bil, ond ar 07.02.19 derbyniwyd e-bost arall gan Mr Deryck Evans, Rheolwr Tîm Technegol, Llywodraeth Leol, Swyddfa Archwilio Cymru, yn dweud ei fod "ar hyn o bryd yn edrych ar y gwaith archwilio a wneir a sail y ffi archwilio. Ymatebaf ymhellach erbyn 14 Chwefror." Felly penderfynwyd aros i weld beth oedd cynnwys yr ateb y byddant yn ei anfon atom.

Cyflog mis Ionawr 2019 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM

Enw/Rheswm	Swm £	Cyfanswm Taliad net £	Taliad siec rhif:-
Cyflog sylfaenol y Clerc, Ionawr 2019 35 awr x £9.808 =	343.28-llai treth £68.60	<u>274.68</u>	100999
Cyllid a Thollau EM Treth ar enillion y Clerc	343.00 x 20% = £68.60	<u>68.60</u>	101000
Costau'r Clerc		<u>16.00</u>	101101
WiFi Neuadd Llanystumdwy 01.03.18-28.02.19	403.20	<u>403.20</u>	100011 Cyfrif Budd-Cymunedol

CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor - hysbyseb wedi cael ei roi yn rhifyn mis Tachwedd a Rhagfyr 2018 o'r Ffynnon gyda dyddiad cau 15fed Ionawr 2019. Derbyniwyd llythyr a mantolen ariannol gan bob un.

	<u>Cais gan y canlynol</u>	Swm £	Siec rhif	Cynghorwyr yn ymneilltuo
1.	Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi	500.00	100012 (cyfrif budd cymunedol)	
2.	Cymdeithas Adloniant Capel Pencaenewydd	300.00	100013 (cyfrif budd cymunedol)	William Ifor Hughes,

3.	Mynwent Capel Helyg, Llangybi	500.00	101102 (cyfrif cyfredol)	
4.	Mynwent Rydd ac Anenwadol, Chwilog	1000.00	101103 (cyfrif cyfredol)	Aled Evans
5.	<u>Mynwent Newydd</u> <u>Llanystumdwy</u>	600.00	101104 (cyfrif cyfredol)	Anwen Jones, Gareth Davies, Sion Aled Jones, Sian Parry
6.	Neuadd Goffa Chwilog	500.00	101105 (cyfrif cyfredol)	
7.	Eisteddfod Gadeiriol Chwilog	500.00	101106 (cyfrif cyfredol)	Trefor Jones, Cadeirydd Margaret Griffith ac fe ddaeth yr is gadeirydd Anwen Jones i'r gadair
8.	Menter y Plu	300.00	100014 (cyfrif budd cymunedol)	Sion Aled Jones, Anwen Jones, Aled Evans
9.	Clwb Peldroed Llanystumdwy	800.00	101107 (cyfrif cyfredol)	Trefor Jones, Darren Morley
10.	Theatr Bara Caws	100.00	101108 (cyfrif cyfredol)	
11.	Dawns i Bawb	100.00	101109 (cyfrif cyfredol)	
12.	Bobath	0.00		
13.	Ffermwyr Ifanc Eryri	500.00	101110 (cyfrif cyfredol)	

Ceisiadau sydd wedi cyrraedd yn hwyr, sef ar ol 15.01.2019 a chyn y cyfarfod.

Penderfynu ar y noson i dderbyn y ceisiadau isod er ei bod wedi cyrraedd ar ol y dyddiad cau.

	<u>Cais gan y canlynol ar ol y dyddiad cau</u>	£	Siec rhif	Cynghorwyr yn ymneilltuo
14.	Ymddiriedolaeth Gofalwyr (21.01.19)	0.00		
15.	Neuadd Llanystumdwy (24.01.19)	500.00	101111 (cyfrif cyfredol)	Sion Aled Jones
16.	Tenovus (29.01.19)	0.00		

17.	Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy (02.02.19)	50.00	101112 (cyfrif cyfredol)	
18.	Eisteddfod Llangollen (06.02.19)	0.00		
19.	Ysgol Feithrin Chwilog	500.00	101113 (cyfrif cyfredol)	Sion Aled Jones

It is possible to get an English translation of any minute, contact the Clerk.